



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Plas-y-felin  
Lewis Drive  
Parc Churchill  
Caerffili  
CF83 3FT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2016

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn ardal Parc Churchill yng Nghaerffili. Yr awdurdod lleol yw Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae gan yr ysgol 350 o ddisgyblion, gan gynnwys 32 disgyblion sy'n mynychu'r meithrin yn rhan-amser. Mae pedwar dosbarth oedran cymysg ac wyth dosbarth un oedran.

Mae tua 34% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef tua 20%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 31% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%. Nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith gartref.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd yn Ionawr 2013. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol yn 2009.

Mae'r cyllid ysgolion unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin yn 2015-2016 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,126 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £5,191 a'r isafswm yw £2,492. Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn safle 36 o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn perthynas â'u manau cychwyn
- mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda
- mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac wedi eu cymell yn gryf i ddysgu
- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o sut i aros yn iach
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ran bodloni eu targedau eu hunain
- mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad y gwella dysgu disgyblion yn dda
- mae ansawdd yr addysgu'n effeithiol yn y rhan fwyaf o ddisgyblion
- ceir cwricwlwm sy'n cynnwys cydbwysedd addas sy'n ennyn diddordeb disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir a chryf
- ceir gwaith tîm effeithiol yn yr ysgol ar bob lefel
- mae'r corff llywodraethol yn cefnogi a herio'r ysgol yn dda
- mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr ac wedi eu sefydlu'n dda
- mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cynlluniau gwella ar waith yn llwyddiannus
- mae staff yn rheoli adnoddau'n dda ac mae disgyblion yn elwa ar amgylchedd dysgu o ansawdd uchel
- ceir cysylltiadau effeithiol ag ysgolion partner, sydd wedi cefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu yn dda

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb disgyblion sy'n absennol yn barhaus

A2 Gwella cysondeb ac effeithiolrwydd marcio ac asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â lefelau medrau sydd islaw'r rheiny a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o'u hoedran nhw fel arfer. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn ac yn cyflawni'n dda erbyn iddynt adael yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn ymuno mewn trafodaethau dosbarth, gan ymateb yn briodol i gwestiynau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn rhoi eu barn yn synhwyrol ac mae'r disgyblion mwy abl yn siarad yn glir am eu gwaith, fel esbonio beth yw gwên, a rhoi enghreifftiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad a gwrando'n dda mewn gwersi ac wrth weithio mewn parau a grwpiau bach. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau llafar da ac mae'r disgyblion mwy abl yn cyflwyno safbwynt penodol yn dda, gan ddefnyddio iaith berswadiol wrth siarad â'u dosbarth.

Ar draws yr ysgol, mae darllen disgyblion yn datblygu'n briodol am eu hoedran a'u gallu ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen i gefnogi eu dysgu'n effeithiol mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dysgu ffyrdd addas i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd. Gallant ddisgrifio beth sy'n digwydd yn y llyfrau a ddarllenant a thrafod yr hyn y maent yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi am wahanol gymeriadau. Mae'r disgyblion mwy abl yn darllen yn rhugl gyda mynegiant da. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda a gallant grynhoi darnau y maent wedi eu darllen a gwneud rhagfynegiadau synhwyrol am yr hyn sy'n debygol o ddigwydd nesaf. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaethau rhwng testunau ffuglen a ffeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn medrau ysgrifennu cynnar wrth iddynt ddysgu ffurfio eu llythrennau a ffurfio geiriau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus at wahanol ddibenion, fel cyfarwyddiadau, dyddiaduron a storïau. Maent yn datblygu eu defnydd o frawddegau yn dda ac yn arbrofi â geirfa fwy diddorol i ysgrifennu darnau o waith estynedig. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn parhau i ddatblygu eu hysgrifennu gan ddefnyddio ystod o ddulliau ystyrlon a phriodol ar gyfer gwahanol destunau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso eu hysgrifennu'n effeithiol mewn gwahanol feysydd o'r cwricwlwm, er enghraifft i gofnodi arbrofion gwyddonol neu ysgrifennu sgriptiau neu lythyrau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y medrau llawysgrifen a ddatblygwyd yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn ddestlus gan ddefnyddio arddull ddarllenadwy a chysylltiedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrif yn hyderus ymlaen ac yn ôl ac mewn lluosrifau o ddau, deg neu ddau ddeg. Maent yn adio a thynnu yn gywir gan

ddefnyddio degau ac unedau, ac yn adnabod odrifau ac eilrifau. Maent yn adnabod amseroedd chwarter wedi, hanner awr wedi a chwarter i'r awr. Ar draws yr ysgol, yn ôl oedran a gallu, mae disgyblion yn defnyddio graffiau bar yn briodol yn eu gwaith testun. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso strategaethau cyfrif gan ddefnyddio pedair rheol rhif i ddatrys problemau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau mesur a thablau a diagramau amrywiol yn effeithiol wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau neu arbrofion mewn daearyddiaeth neu wyddoniaeth. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau data yn effeithiol, er enghraifft i gyfrifo cymedr, modd a chanolrif grwpiau o ffigurau sy'n deillio o ymchwiliadau.

Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael cymorth targedig i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dal i fyny'n dda mewn grwpiau ymyrraeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau unigol.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau Cymraeg wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i gemau a gweithgareddau Cymraeg. Maent yn ateb cwestiynau amdanyn nhw eu hunain a thestunau cyfarwydd yn hyderus, er enghraifft ar y tywydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen dda hon. Maent yn trafod ystod eang o destunau, gan ymestyn eu brawddegau gyda disgrifiadau neu esboniadau syml, ac yn holi cwestiynau cynyddol gymhleth. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau darllen yn briodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth addas o *genres*.

Mae perfformiad disgyblion wrth gyflawni'r deilliant disgwylidig mewn llythrennedd a rhifedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi tueddu i osod yr ysgol yn y 50% uwch dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y deilliant uwch yn y 25% uchaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwylidig mewn Saesneg yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn mathemateg, mae perfformiad cymharol yr ysgol wedi amrywio'n fawr. Mewn gwyddoniaeth, mae'r ysgol wedi gwella'n gyson ac mae ei pherfformiad wedi ei gosod yn y 50% uwch yn bennaf. Ar y lefel uwch, mae perfformiad disgyblion yn tueddu i osod yr ysgol yn y 25% uchaf yn bennaf ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uwch ar y cyfan ar gyfer mathemateg.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella yn gyffredinol yn y pedair blynedd ddiwethaf. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn arbennig, caeodd y bwlch mewn cyflawniad yn sylweddol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae ffigurau 2015 yn y Cyfnod Sylfaen a hefyd yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio'n dda ac yn well na disgyblion eraill.

Mae'r nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn gwneud cynnydd addas.

Mae cymariaethau rhwng perfformiad bechgyn a merched yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ar draws yr ysgol. Nid yw'r bylchau mewn perfformiad yn rhy fawr ac nid oes unrhyw bryderon nodedig o ran perfformiad cymharol bechgyn a merched.

### **Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ar eu pryderon ac yn delio'n deg ac yn drylwyr ag unrhyw broblemau sydd ganddynt.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o barch a phryder am bobl eraill. Maent yn gwrtais ac yn awyddus i ddangos eu hysgol i ymwelwyr. Mae gan bron bob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd o ran eu hawydd i gymryd rhan yng ngweithgareddau amrywiol yr ysgol. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n ddiwyd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sylwgar, yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn gadarnhaol i oedolion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn weithwyr tîm effeithiol ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd, ac yn aml yn dangos agwedd aeddfed wrth gydweithio mewn tasgau grŵp.

Mae disgyblion yn barod i ymgymryd â rolau, fel 'Helpwr Heddiw' a chyfeillion maes chwarae, neu gymryd cyfrifoldeb am offer ystafell ddosbarth. Mae aelodau o'r pwyllgor eco a'r cyngor ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â'u cyd-ddisgyblion i helpu gwneud penderfyniadau am fywyd ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu'n sylweddol at wneud penderfyniadau am newidiadau mawr i dir yr ysgol, sy'n cynnwys dewis a lleoli offer chwarae mawr, decin ac ardaloedd pyllau newydd a marciau ar y maes chwarae. Mae cynrychiolwyr y cyngor ysgol wedi cymryd rhan mewn prosesau cyfweld i benodi athrawon newydd hefyd.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyfradd presenoldeb gyffredinol yr ysgol wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd ychydig y llynedd i'r 50% is. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf o ganlyniad i ymyrraeth effeithiol a thargedig gan yr ysgol a'r swyddog lles addysg. Mae lefelau presenoldeb ar gyfer y flwyddyn bresennol hyd at gyfnod yr arolygiad wedi gwella ac yn rhoi'r ysgol yn ôl yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sy'n absennol yn barhaus.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r rhain yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth flaenorol ac yn darparu ymdriniaeth drylwyr â gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan ddefnyddio dull thematig.

Mae aelodau staff yn cynllunio'n ofalus i ddarparu tasgau diddorol sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da a dysgu trwy ystod eang o destunau. Mae'r cylch



cynllunio dwy flynedd yn effeithiol o ran sicrhau parhad a dilyniant ar gyfer dosbarthiadau oedran cymysg. Caiff arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen ei chynnwys mewn gwersi yn ofalus. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn elwa'n gryf ar ddefnyddio ardal 'Ysgol Goedwig' yr ysgol. Maent yn gwisgo'n annibynnol yn eu dillad glaw ac wedyn yn amcangyfrif, mesur a chyfathrebu'n dda pan roddir tasg iddynt adeiladu llochesi y tu allan. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer defnyddio manau dysgu amrywiol y tu allan wrth i ddisgyblion symud i gyfnod allweddol 2, gan ddefnyddio gweithgareddau fel plannu a monitro tyfu hadau a phlanhigion yn dda.

Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm yn fanwl ac yn darparu cyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae'r ysgol yn trefnu rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus i roi anogaeth i ddisgyblion sy'n tangyflawni ac yn eu helpu i wella eu llythrennedd, eu rhifedd a'u lles yn effeithiol.

Mae athrawon ac aelodau eraill o staff yn cynnig ystod eang o glybiau allgyrsiol, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys clwb ysgol goedwig, a chlybiau ar gyfer garddio, criced a Ffrangeg. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn newid bob tymor ac yn gwella profiadau'r disgyblion. Cynhelir teithiau addysgol, sy'n aml yn gysylltiedig â themâu dosbarth, yn rheolaidd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi dysgu disgyblion ymhellach.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn drylwyr. Mae'r ysgol yn adlewyrchu ac yn dathlu diwylliant a thraddodiadau Cymru trwy gydol y flwyddyn, ac mae disgyblion yn astudio gwaith arlunwyr o Gymru ac yn dysgu am Gymry pwysig o'r gorffennol a'r presennol. Mae'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol mewn ymweliadau lleol, er enghraifft ymweliad â Chastell Caerffili.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy yn llwyddiannus. Mae'r pwyllgor eco yn arwain gweithgareddau, fel ailgylchu ac arbed ynni, yn dda. Mae mentrau fel y clwb garddio ar ôl yr ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut i weithredu'n gynaliadwy a datblygu hunanddigonolrwydd trwy dyfu a gwerthu eu cynnyrch eu hunain.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn pwysleisio'n addas ddatblygiad dinasgyddiaeth a dealltwriaeth fyd-eang disgyblion. Yn ychwanegol, mae cymryd rhan mewn mentrau ag eglwysi lleol yn hyrwyddo dealltwriaeth o anghenion pobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn anfon cit ac adnoddau chwaraeon i gefnogi addysgu mathemateg mewn ysgol yn Wganda.

### **Addysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio ac yn darparu gwersi diddorol sy'n cynnwys yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus ac yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'r dysgu yn fywiog. Mae ganddynt wybodaeth gyfoes am yr hyn y maent yn ei addysgu, yn defnyddio detholiad da o dduilliau addysgu ac yn defnyddio amrywiaeth o offer i gynnal diddordeb disgyblion yn dda. Mae athrawon yn defnyddio cwestiynau yn fedrus i wella medrau dysgu a meddwl disgyblion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r athrawon yn hyrwyddo datblygiad personol a hyder disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn rhoi llawer o heriau i ddisgyblion sy'n ymestyn ac ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Defnyddiant chwarae ac ystod eang o weithgareddau dysgu i ysgogi dysgwyr iau yn effeithiol. Mae bron yr holl addysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn hyrwyddo cydweithio mewn gwrsi yn bwrpasol ac yn creu cyfleoedd da i ddatblygu medrau llafar a medrau meddwl disgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn dda. Maent yn cyfrannu'n gryf at gyflwyno sesiynau ac yn rhoi cymorth gwerthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn gwneud cyfraniad pwysig iawn at fodloni anghenion disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni.

Defnyddia athrawon ystod eang o asesiadau i olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr. Defnyddiant y wybodaeth yn dda i osod targedau ac ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael ag unrhyw dangyflawni. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar eu cynnydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith a gallant asesu eu cynnydd eu hunain yn bwrpasol. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb a dealltwriaeth ar y cyd o'r dulliau hyn yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd mewn rhai dosbarthiadau.

Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am y cynnydd a wna eu plentyn a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i wella.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae lefelau uchel o ofal a pherthnasoedd gweithio da rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n gryf at les disgyblion. Er enghraifft, amser chwarae, gwneir defnydd dychmygus o'r ardaloedd eang y tu allan ar gyfer ystod eang o weithgareddau. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dewis gweithgareddau penodol, ac mae cynorthwywyr ystafell ddosbarth yn eu cynorthwyo'n effeithiol. O ganlyniad, mae gweithgareddau amser chwarae hynod gynhyrchiol yn hyrwyddo safon dda o ymddygiad a rhyngweithio cymdeithasol ymhlith disgyblion. Yn ychwanegol, gwna'r ysgol ddefnydd da o ardaloedd anogaeth dan do lle caiff unigolion a grwpiau o ddisgyblion gymorth i'w galluogi i ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella eu cyflawniad yn yr ystafell ddosbarth. Mae staff wedi ymgymryd â hyfforddiant penodol er mwyn cyflwyno'r rhaglenni hyn yn fedrus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd a chyfleusterau da ar gyfer gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae gwasanaethau yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn archwilio themâu cymdeithasol yn dda ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer myfyrio moesol a chyd-addoli. Mewn gwrsi, mae staff hefyd yn defnyddio gweithio mewn tîm a thasgau llafar cydweithredol i hyrwyddo medrau cymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae gwrsi'n cynnwys cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion berfformio mewn gwahanol rolau ac archwilio celfyddydau gweledol trwy astudio ac efelychu arlunwyr o bwys, fel Kandinsky. Caiff disgyblion gymorth da i ddysgu amrywiaeth o offerynnau cerdd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol ddull cwbl gynhwysol ac mae'n darparu cymorth ystafell ddosbarth o ansawdd da i ddisgyblion a nodwyd. Yn ychwanegol, mae ymyriadau targedig yn sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth cyfatebol da i fodloni eu hanghenion canfyddadwy. Mae amserlennu staff cymorth ac ymyriadau yn ofalus yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cymorth heb golli agweddau eraill ar y cwricwlwm. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o gynlluniau addysg unigol trwy ymgynghori â disgyblion a rhieni. Mae disgyblion ag ADY wedi gwneud cynnydd nodedig o ganlyniad.

### **Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn groesawgar a gofalggar ac yn gwerthfawrogi a chefnogi'r holl ddisgyblion a staff. Mae'n gymuned gynhwysol ac mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ei gilydd, beth bynnag fo'u cefndir neu'u gallu. Mae'r ysgol yn cydnabod amrywiaeth yn dda ac yn dathlu cyflawniadau pawb yn bwrpasol. Mae wedi creu amgylchedd yn llwyddiannus lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus, yn ddiogel ac yn saff.

Mae ystafelloedd dosbarth yn cynnig amgylchoedd dymunol ac addas ar gyfer dysgu. Mae adeiladau'r ysgol yn drefnus ac mae staff yn gwneud defnydd da o'r holl leoedd sydd ar gael i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu ystafell adnoddau ganolog i gefnogi addysgu gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yn effeithiol ac ar gyfer darpariaeth anogaeth. Mae athrawon a disgyblion yn defnyddio arddangosfeydd o ansawdd da i ddathlu a gwella eu dysgu. Mae'r adeiladau'n cynnig trefniadau effeithiol i'r rheiny sydd ag anableddau, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn.

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn yr amgylchedd awyr agored yn uchel iawn. Mae hyn yn cynnwys offer chwarae, ardaloedd garddio, ardal ysgol goedwig fawr, pwll ysgol a gardd natur. Ceir ystafelloedd dosbarth awyr agored unigol ar gyfer yr holl ddosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen a dechrau cyfnod allweddol 2 ac mae'r rhain wedi eu strwythuro i alluogi pontio da rhwng cyfnodau. Caiff hyn effaith fuddiol ar les disgyblion a'u cyfleoedd ar gyfer dysgu.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o'i darpariaeth TGCh a gall dysgwyr wneud defnydd hawdd o ystod eang o adnoddau dysgu digidol, y maent yn eu defnyddio'n rhwydd. At ei gilydd, mae gan yr ysgol gyflenwad da o lyfrau ac adnoddau eraill i fodloni anghenion disgyblion a chefnogi cyflwyno'r cwricwlwm.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae'n cyfleu gweledigaeth glir i sefydlu diwylliant o ddyhead a disgwyladau uchel mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol o ansawdd uchel. Mae'n annog staff i fod yn uchelgeisiol yn eu haddysgu a chyflawni eu gorau. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn bwrw ymlaen â'r weledigaeth yn effeithiol. Caiff uwch arweinwyr a rheolwyr effaith gadarnhaol ar ddatblygu ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae gan bob un o'r staff rolau a chyfrifoldebau clir, sy'n cael eu rhannu'n dda ar draws yr ysgol. Mae staff ar bob lefel yn cymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo safonau uchel, gan sicrhau bod y cwricwlwm yn ddifyr ac yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae cyfarfodydd rheolaidd y staff a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn sicrhau ffocws clir ar gynnydd disgyblion, amgylcheddau dysgu a blaenoriaethau datblygu'r ysgol.

Mae arweinwyr pwnc profiadol yn defnyddio technegau hyfforddi a mentora yn dda i ddatblygu arbenigedd athrawon llai profiadol wrth fonitro ac arfarnu cynnydd mewn addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae staff yn datblygu'n dda ac yn ennill technegau pwrpasol i ddatblygu safonau da a chysondeb dysgu ac mewn rheoli ymddygiad ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft o ran lleihau'r bwlch rhwng deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion eraill.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac yn darparu lefel dda o her. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, trwy adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth. Cânt adroddiadau yn uniongyrchol gan ddisgyblion a chynrychiolwyr y cyngor ysgol hefyd. Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen o ymweliadau cynlluniedig ac yn sicrhau bod eu canfyddiadau'n cael eu cofnodi ac yr eir i'r afael â nhw. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu gwella.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu yn drylwyr ac wedi eu sefydlu'n dda. Mae gan y rhan fwyaf o staff ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella, ac mae ffocws clir ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r broses drylwyr i asesu perfformiad yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwadau gwersi, edrych ar waith disgyblion a chyfathrebu â gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae arweinwyr yn ystyried safbwyntiau asiantaethau allanol, llywodraethwyr a rhieni yn ofalus. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi mynd ati i newid ei adroddiadau ac mae'n cyfathrebu â rhieni o ganlyniad i adborth gan rieni. Mae'r rhan fwyaf o staff yn cyfrannu'n effeithiol at arfarniadau mewn cyfarfodydd staff ac yn rhoi sylwadau ar gynllun datblygu'r ysgol. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun onest a chywir o'r ysgol.

Defnyddia arweinwyr y wybodaeth hunanarfarnu i bennu blaenoriaethau perthnasol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys nifer hylaw o dargedau, sy'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella darpariaeth. Mae'r camau gwella yn nodi graddfeydd amser a chyfrifoldebau priodol yn glir ac yn dangos sut i fesur cynnydd. O ganlyniad, mae pob un o'r staff yn deall effaith pob targed pan gaiff ei gwblhau'n llwyddiannus. Mae gan yr ysgol hanes da o gynllunio gwelliant. Er enghraifft, mae wedi parhau i ddatblygu ei hamgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored yn llwyddiannus i wella dysgu annibynnol disgyblion ac mae wedi gwella deilliannau mewn gwyddoniaeth a lefelau cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n gryf at wella safonau a lles disgyblion. Er enghraifft, mae prosiect cydweithredol llwyddiannus â

Chyngor Celfyddydau Cymru ac ysgol uwchradd bartner wedi galluogi artistiaid arbenigol i weithio gyda disgyblion mewn ystod o weithgareddau perfformio ac mewn animeiddio digidol. Mae hyn wedi codi safonau mewn TGCh yn dda. Darparodd yr ysgol gyfle i rannu deilliannau'r fenter hon gyda rhieni.

Mae rhieni'n gefnogol i'r ysgol ac fe geir cyfathrebu a phartneriaeth dda â nhw. Mae'r ysgol yn datblygu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i ymgysylltu â rhieni ymhellach ym mywyd yr ysgol. Mae gweithdai dysgu teuluol yn fuddiol ac yn galluogi rhieni i gefnogi dysgu eu plant y tu allan i oriau ysgol. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn codi arian sydd wedi helpu i ddarparu adnoddau ychwanegol defnyddiol ar gyfer yr ysgol.

Mae gan yr ysgol lawer o gysylltiadau cadarnhaol â grwpiau cymunedol ac eglwysi lleol. Yn ychwanegol, mae'n mynd ati i ymgysylltu ag ysgolion partner i adeiladu ar ei harfer dda ei hun trwy rannu arbenigedd ag ysgolion eraill a thrwy ddysgu ganddynt. Ceir cysylltiadau datblygedig â grwpiau cyn-ysgol a chydweithio da ag ysgolion uwchradd partner i helpu sicrhau cyfnod pontio didrafferth o un ysgol i'r nesaf. Mae athrawon ysgol uwchradd yn rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2, er enghraifft trwy addysgu grwpiau o ddisgyblion mwy abl i'w helpu i wneud y gorau o'u medrau. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol â grŵp ehangach o ysgolion lleol hefyd i sicrhau cysondeb a chywirdeb yn asesiadau athrawon.

Mae aelodau staff yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac arbenigwyr, fel seicolegwyr addysg a gweithwyr iechyd proffesiynol, i hyrwyddo lles a dysgu disgyblion.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol staff ar bob lefel er budd y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'i staff addysgu a'i staff cymorth i fodloni anghenion dysgwyr. Mae wedi sefydlu rhwydweithiau da o arfer broffesiynol yn yr ysgol a gyda phartneriaid eraill.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r gyllideb i ariannu'r meysydd blaenoriaeth a amlinellir yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae safon adnoddau'n dda ac fe geir cynlluniau datblygedig i ddisodli a gwella offer i gynnal ansawdd. Ceir cynlluniau a nodau cynnal clir ar gyfer gwella a datblygu adeiladau'r ysgol.

Mae partneriaethau wedi galluogi'r ysgol i ddarparu gwelliannau sylweddol i adeiladau. Er enghraifft, mae prosiect cyllid cyfatebol sy'n ymwneud â datblygiadau adeiladu lleol, wedi arwain at adeiladu estyniad o ansawdd uchel ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd da o'i Grant Amddifadedd Disgyblion sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a phresenoldeb ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd cyson gryf y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6762389 - Ysgol Gynradd Plasyfelin

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	336
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	34.6
Grŵp PYD	5 (32%<PYD)

#### Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	33	35	35	46
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	72.7	91.4	85.7	84.8
Chwarter meincnod	2	1	1	2
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	33	35	35	46
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	87.9	100.0	88.6	87.0
Chwarter meincnod	1	1	1	2
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	42.4	57.1	37.1	39.1
Chwarter meincnod	1	1	1	1
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
<b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	33	35	35	46
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	75.8	91.4	91.4	87.0
Chwarter meincnod	3	1	1	2
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	39.4	54.3	42.9	34.8
Chwarter meincnod	1	1	1	1
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	33	35	35	46
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	87.9	100.0	94.3	95.7
Chwarter meincnod	2	1	2	2
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	42.4	91.4	48.6	63.0
Chwarter meincnod	1	1	2	1

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

## 6762389 - Ysgol Gynradd Plasyfelin

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

336

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

34.6

Grŵp PYD

5 (32%<PYD)

### Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6</b>	37	41	32	29
<b>Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)</b>	81.1	68.3	87.5	82.8
Chwartel meincnod	1	4	1	2
<b>Saesneg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	37	41	32	29
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	83.8	70.7	87.5	86.2
Chwartel meincnod	1	4	2	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	35.1	31.7	37.5	37.9
Chwartel meincnod	1	2	1	1
<b>Cymraeg iaith gyntaf</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	*	*
Chwartel meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwartel meincnod	*	*	*	*
<b>Mathemateg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	37	41	32	29
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	81.1	73.2	87.5	82.8
Chwartel meincnod	2	4	2	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	45.9	17.1	37.5	34.5
Chwartel meincnod	1	4	1	2
<b>Gwyddoniaeth</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	37	41	32	29
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	86.5	80.5	87.5	89.7
Chwartel meincnod	2	3	2	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	45.9	31.7	37.5	48.3
Chwartel meincnod	1	2	1	1

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	98	95 97%	3 3%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	98	84 86%	14 14%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	98	93 95%	5 5%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	97	97 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	98	96 98%	2 2%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	97	93 96%	4 4%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	98	98 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	98	95 97%	3 3%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	98	85 87%	13 13%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	98	97 99%	1 1%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	97	67 69%	30 31%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	97	83 86%	14 14%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	



## Ymateb i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	41	26 63%	14 34%	1 2%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	42	32 76%	8 19%	2 5%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	41	30 73%	10 24%	0 0%	1 2%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	41	29 71%	12 29%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	41	17 41%	18 44%	5 12%	1 2%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	42	27 64%	14 33%	1 2%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	40	30 75%	9 22%	1 2%	0 0%	2	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
		65%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	40	14 35%	22 55%	4 10%	0 0%	2	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	39	23 59%	11 28%	4 10%	1 3%	3	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	38	26 68%	11 29%	1 3%	0 0%	3	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	40	26 65%	12 30%	2 5%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	34	17 50%	17 50%	0 0%	0 0%	7	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	42	23 55%	15 36%	4 10%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	41%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	41	28 68%	10 24%	2 5%	1 2%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	36	19 53%	11 31%	6 17%	0 0%	6	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		49%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	40	24 60%	14 35%	2 5%	0 0%	2	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	33	20 61%	13 39%	0 0%	0 0%	9	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	42	30 71%	11 26%	1 2%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		55%	39%	6%	1%		
The school is well run.	42	29 69%	11 26%	2 5%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Gregory John Owens	Arolygydd Cofnodol
Buddug Mai Bates	Arolygydd Tîm
Catherine Mary Jenkins	Arolygydd Lleyg
Phillip Thomas Brookman	Arolygydd Cymheiriaid
Clive Michael Condon	Arolygydd Cymheiriaid
Mark Jones	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.